# **Arweiniad atodol:** arolygu ysgolion sy'n ysgolion arweiniol mewn partneriaeth addysg gychwynnol i athrawon

**Hydref 2023**

Estyn

estyn.llyw.cymru
@EstynAEF

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Beth yw'r diben?**

Rhoi arweiniad i arolygwyr am arolygu ysgolion sy'n ysgolion arweiniol mewn partneriaeth addysg gychwynnol i athrawon.

**Ar gyfer pwy y mae wedi'i fwriadu?**

Arolygwyr ysgolion a gynhelir

**Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?**

Hydref 2023

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Arweiniad atodol** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Beth yw gofynion ysgol arweiniol?** | **3** |
| **Cwestiynau arolygu posibl** | **4** |

## Arweiniad atodol

Dogfennau allweddol Estyn sy’n llywio gweithgarwch arolygu yw’r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym hefyd yn llunio arweiniad atodol i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae’r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni bai eu bod yn datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ehangu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ar ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn hollgynhwysfawr. Nid yw’n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn ddibendraw wrth gwmpasu unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth ymateb i gwestiynau penodol sy’n dod i’r amlwg sy’n codi yn ystod arolygiadau, neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai’r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i ennill dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn. Gallent fod yn fuddiol hefyd i ddarparwyr wrth werthuso agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae timau arolygu yn gweithio yn unol â nifer o egwyddorion allweddol. Maent:

- yn defnyddio ymagwedd at arolygu sy’n canolbwyntio ar y dysgwr
- bob amser yn canolbwyntio’n gryf ar ansawdd ac effeithiolrwydd yr addysgu a’r dysgu
- yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond yn adrodd ar y cryfderau allweddol a’r gwendidau yn unig
- yn canolbwyntio ar bob un o’r gweithgareddau arolygu o ran y darparwr penodol – ac yn addasu eu hymagweddau yn unol â hynny
- yn defnyddio ystod o ddulliau ac ymagweddau arolygu teilwredig sy’n bwrpasol i amgylchiadau’r darparwr, er mwyn gwerthuso ehangder gwaith y darparwr yn drylwyr ac yn deg
- yn mabwysiadu ymagwedd adeiladol sy’n gwneud y rhyngweithio â’r darparwr yn brofiad dysgu proffesiynol ar gyfer eu staff a’r tîm arolygu yn gyffredinol.

## 1 Cyflwyniad

O fis Medi 2019, mae’r holl ddarparwyr addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru wedi cael eu sefydlu’n bartneriaethau rhwng sefydliad addysg uwch (SAU) a grŵp o ‘ysgolion arweiniol’ sydd, ochr yn ochr â rhwydwaith ehangach o ysgolion, yn darparu addysg a datblygiad proffesiynol athrawon dan hyfforddiant. Mewn rhai partneriaethau, mae consortiwm rhanbarthol yn gweithio gyda’r SAU a’r ysgolion, hefyd.

Yn unol â’r *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru* (Cylchlythyr LIC, rhif: 001/2018 ar gyfer rhaglenni sydd wedi’u hachredu i ddechrau cyn 31 Awst neu Gylchlythyr LIC, rhif: 002/2023 ar gyfer rhaglenni sydd wedi’u hachredu i ddechrau o 1 Medi 2024), mae’n ofynnol i ddarparwyr ddynodi nifer o ‘ysgolion partneriaeth arweiniol’ a fydd yn cyfrannu’n llawn at arweinyddiaeth a rheolaeth y rhaglen addysg gychwynnol i athrawon, gan gynnwys cynllun a chynnwys y rhaglen a dewis myfyrwyr.  Byddant hefyd yn cymryd rhan lawn ym mhroses sicrhau ansawdd a hunanwerthuso pob rhaglen.

Bydd ein harolygiadau o bartneriaethau addysg gychwynnol i athrawon yn archwilio addysg gychwynnol i athrawon a ddarperir gan ysgolion arweiniol.  Bydd hyn yn cynnwys gwerthuso pa mor dda y mae’r ysgol yn ymgymryd â rôl arwain yn y bartneriaeth.  Fodd bynnag, dylai arolygwyr ysgol ystyried effaith y cyfranogiad ym mhartneriaeth ysgol arweiniol, yn enwedig ar addysgu, arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol.

## 2 Beth yw gofynion ysgol arweiniol?

Daw'r gofynion canlynol ar gyfer ysgol arweiniol o'r *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* (Cylchlythyr LIC, rhif: 001/2018 / 002/2023):

Mae gan bob ysgol arweiniol rôl allweddol yn y Bartneriaeth AGA. Maent yn atebol ar y cyd â'r SAU am ansawdd y rhaglenni, profiad myfyrwyr a deilliannau. O'r herwydd, maent yn cyfrannu'n llawn at arwain, cynllunio a chyflwyno rhaglen(ni) AGA ar y cyd. Bydd uwch arweinwyr ysgol sydd â chyfrifoldeb am AGA yn aelodau o dîm arweinyddiaeth y bartneriaeth. Byddant yn cyfrannu at osod cyfeiriad strategol y bartneriaeth ac yn cael eu cynnwys yn llawn mewn prosesau sicrhau ansawdd, hunanwerthuso, a chynllunio ar gyfer gwella. Dylai fod ymagwedd ysgol gyfan at gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant, o dan arweiniad yr uwch dîm arweinyddiaeth ac arweinwyr eraill yn yr ysgol, gan gynnwys mentoriaid. Dylid rhoi amser gwarchodedig i addysgwyr athrawon yn yr ysgol, gan gynnwys uwch fentoriaid a mentoriaid, sydd wedi'u neilltuo'n benodol i'r Bartneriaeth, i gyflawni eu cyfrifoldebau oddi mewn iddi, gan gynnwys amser ar gyfer cynllunio, cydweithio, cyflwyno sesiynau, asesu athrawon dan hyfforddiant, cwblhau dogfennau a chymryd rhan mewn llywodraethu'r Bartneriaeth, lle bo'n briodol.

Dylai manylion am rôl yr Ysgol Bartner Arweiniol o fewn y Bartneriaeth gael eu mynegi'n glir mewn Memorandwm Dealltwriaeth sydd wedi'i lunio a'i gytuno ar y cyd rhwng yr Ysgolion Partner a'r SAU. Mewn rhai achosion, gallai ysgolion arweiniol weithio gyda'i gilydd, er enghraifft mewn 'cynghrair ysgolion arweiniol' i wneud y mwyaf o arbenigedd staff neu gyfleusterau.

Dylai Ysgolion Partner Arweiniol:

- fod yn ysgolion effeithiol sy'n cael eu cydnabod am ddysgu ac addysgu o ansawdd uchel
- bod â diwylliant lle cydnabyddir bod AGA yn un o'u cyfrifoldebau craidd. Dylent fod yn agored i archwilio a thrafod eu harferion addysgegol ac asesu eu hunain yn sgil tystiolaeth o ymchwil a mannau eraill
- meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn strwythur y Bartneriaeth
- meddu ar ddealltwriaeth lawn a chlir o'u rôl o fod yn atebol ar y cyd â'r SAU (a'r Ysgolion Partner Arweiniol eraill yn y Bartneriaeth)
- arwain a chynorthwyo Ysgolion Partner Arweiniol ac Ysgolion Partner o fewn y Bartneriaeth AGA yn eu gwaith gydag athrawon dan hyfforddiant, fel mater o drefn
- arwain a chynorthwyo Ysgolion Partner eraill ar eu taith i fod yn sefydliadau dysgu wedi ymgysylltu ag ymchwil, fel mater o drefn
- cymryd rhan a bod yn atebol ar y cyd yn yr holl benderfyniadau a phrosesau strategol. Fel grŵp, dylai fod cynrychiolaeth effeithiol ohonynt ar grwpiau arweinyddiaeth ar draws y strwythur llywodraethu
- chwarae rhan lawn ym mhrosesau sicrhau ansawdd, hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella pob rhaglen
- cyfrannu at gynllunio a datblygu rhaglenni

- chwarae rhan flaenllaw yn strategaeth a chynlluniau’r Bartneriaeth ar gyfer denu ymgeiswyr i’r proffesiwn a recriwtio athrawon ar raglenni, gan gydweithio wrth gyfweld ag athrawon dan hyfforddiant, a’u dewis
- cael yr adnoddau, yr offer a’r cyfleusterau i gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant
- cael uwch staff hyfforddedig i arwain ar AGA o fewn yr ysgol. Dylai’r athrawon hyn gydlynu profiadau dysgu a chymorth ar gyfer myfyrwyr, a monitro mentora
- darparu profiadau dysgu strwythuredig ar gyfer athrawon dan hyfforddiant sy’n cael eu hintegreiddio’n effeithiol gydag elfennau eraill o’r rhaglen gyffredinol, ac yn ychwanegu atynt
- sicrhau bod pob un o’r staff sy’n gysylltiedig â chyflwyno AGA yn derbyn dysgu proffesiynol parhaus i’w cynorthwyo yn eu rôl fel addysgwyr athrawon yn yr ysgol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae athrawon dan hyfforddiant yn dysgu; medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth o fentora; dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio ymchwil a ffurfiau eraill ar dystiolaeth i gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant; a dealltwriaeth ymarferol o egwyddorion, strwythurau a chynnwys y rhaglen AGA
- darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff SAU
- ymrwymo i ddatblygu’r Gymraeg o fewn eu hysgol. Dylai’r weledigaeth ar gyfer caffael y Gymraeg ac iaith, dysgu ac addysgu, fod yn glir i bawb.

Pan fydd Estyn yn nodi bod angen gweithgarwch dilynol ar ysgol arweiniol ar ôl ei harolygiad craidd, dylai’r arolygydd cofnodol roi gwybod am hynny i gydlynydd yr arolygiad drwy neges e-bost, gyda chopi i’r arolygydd arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon (sarah.lewis@estyn.llyw.cymru).

Gallai ysgolion arweiniol weithio mewn amrywiaeth o ffyrdd i gefnogi’r bartneriaeth gyfan, er enghraifft trwy ddarparu canolfan ragoriaeth ar gyfer pwnc uwchradd, neu drwy gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu eu medrau yn y Gymraeg.

## 3 Cwestiynau arolygu posibl

Gallai’r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth gyfweld ag arweinwyr yn yr ysgol.

- Pa ddylanwad y mae bod yn ysgol arweiniol wedi’i gael ar gyfeiriad strategol yr ysgol?
- A yw gwaith yr ysgol mewn AGA yn nodwedd o’i phrosesau hunanwerthuso a gwella? Os felly, sut mae’r ysgol yn defnyddio canfyddiadau hunanwerthuso, ynghyd â gwybodaeth arall, i ddyfeisio blaenoriaethau perthnasol a chamau ar gyfer gwella sy’n adlewyrchu ei rôl fel partner ar gyfer AGA?
- Sut mae prosesau’r ysgol ar gyfer hunanwerthuso yn cysylltu â hunanwerthusiad y bartneriaeth AGA?
- Ym mha ffyrdd y mae bod yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yn gwneud gwahaniaeth i’r ysgol? Beth fu effaith y gwaith hwn ar arweinwyr, athrawon a disgyblion? Pa fuddion eraill y mae’r ysgol yn eu cael o’r bartneriaeth? (e.e. mynediad at ymchwil, ymglymiad â phrosiectau, ac ati)
- Sut mae’r ysgol yn sicrhau nad yw gwaith fel ysgol arweiniol yn effeithio’n negyddol ar gynnydd disgyblion?
- Pa gysylltiadau y mae’r ysgol yn eu gwneud rhwng gwaith i wella ansawdd addysgu a datblygu athrawon dan hyfforddiant?
- Ym mha ffyrdd y mae’r ysgol yn gweithio gyda phartner(iaid) prifysgol (a phartneriaid rhanbarthol, lle bo’n briodol) i sicrhau bod pob un o’r staff sy’n cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant yn meddu ar y medrau, y wybodaeth a’r ddealltwriaeth angenrheidiol i wneud hynny?
- Sut mae’r ysgol yn sicrhau mentora o’r ansawdd gorau?
- Sut mae’r bartneriaeth yn cynorthwyo staff i fod yn ‘addysgwyr athrawon’ effeithiol? (e.e. Sut ydych chi’n datblygu medrau ymchwil staff, a pha wahaniaeth y mae hyn yn ei wneud i addysgu a dysgu?)
- Sut mae bod yn ysgol arweiniol yn cyfrannu at ddatblygu diwylliant dysgu proffesiynol yn yr ysgol?
- Ym mha ffyrdd eraill y mae’r ysgol yn gweithio gyda phartner(iaid) prifysgol i gefnogi dysgu proffesiynol staff?
- Beth yw buddion cysylltu ag ysgolion eraill yn y bartneriaeth ar gyfer staff a disgyblion yr ysgol?